**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 074/2009
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2009

# Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

**Cynulleidfa** Pob ymarferydd mewn lleoliadau dysgu yng Nghymru, pob Cyfarwyddwr Addysg, Swyddogion Gwella Ysgolion yr AALlau a Chydgysylltwyr Consortia yng Nghymru; pob Undeb a Chymdeithas Athrawon yng Nghymru; Llywodraethwyr Cymru, Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (UCET), Fforwm; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; Addysg Uwch Cymru; y Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol, Dysgu Gydol Oes y DU (LLUK); Estyn; y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE), CYFANFYD; Plant yng Nghymru, CyMAL a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**Trosolwg** Y ddogfen hon yw'r cam cyntaf at greu gweledigaeth gytûn ar gyfer addysgu llwyddiannus a dysgu effeithiol ar draws pob cyfnod a sector addysg yng Nghymru. Mae'n esbonio'r Model Addysgeg sydd wedi'i ddatblygu er mwyn gwella deilliannau a lles dysgwyr.

**Camau i'w cymryd** Bydd ymarferwyr sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu harferion proffesiynol am feithrin eu gwybodaeth am addysgeg. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r ddogfen yn sail ar gyfer trafodaeth ac ar gyfer mynd ati i rannu arferion addysgeg da.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Claire Thomas / Julie Shipp
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 20823205 / 029 20801019
E-bost: pedagogy@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** I gael copïau ychwanegol, cysylltwch â: Sian Garstang
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Uned 6, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0LJ
Ffôn: 01745 538514
E-bost: pedagogy@wales.gsi.gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig** Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 Oed yng Nghymru
Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig
Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth
Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer Dysgu ar ôl 16 oed yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

Mae'r dogfennau uchod ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad: www.cymru.gov.uk

75% wedi'i ailgylchu recycled
ISBN 978 0 7504 5052 2
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2009
CMK-22-07-365
D6660809

# Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

## Pam canolbwyntio ar addysgeg?

Nod sylfaenol canolbwyntio ar addysgeg yw sicrhau bod y profiadau addysgu a dysgu a gaiff ein dysgwyr, yn cael effaith gadarnhaol a cynaliadwy ar eu deilliannau ac ar eu lles. Rydym am ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith ein dysgwyr, cryfhau eu cymhelliad a'u galluogi i fod yn fwy effeithiol, a hynny er mwyn sicrhau deilliannau gwell eu hansawdd.

## Sut y mae'r ddogfen hon yn berthnasol i mi?

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanfon at ymarferwyr ym mhob lleoliad dysgu yng Nghymru er mwyn helpu gyda'r gwaith o greu gweledigaeth gytûn am yr hyn a olygir wrth addysgu llwyddiannus a dysgu effeithiol – gweledigaeth gytûn am yr hyn yw addysgeg. Rydym am ysgogi pobl i ddechrau siarad am yr hyn a olygir wrth arferion addysgeg da, am yr elfennau y mae eu hangen er mwyn addysgu'n effeithiol a dysgu'n llwyddiannus, ac ynghylch sut y mae'r elfennau hynny'n cydblethu. Rydym yn awyddus hefyd i ddatblygu geirfa gyffredin, yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn i ymarferwyr fedru mynd ati i drafod â'i gilydd ar draws pob sector, lleoliad a chyfnod.

## Beth y mae angen i mi ei wneud?

Gwyddom fod y mwyafrif helaeth o ymarferwyr wedi ymrwymo i ddatblygu eu harferion proffesiynol a'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth am addysgeg. Rydym yn gobeithio y byddwn, drwy ganolbwyntio ar addysgeg, yn creu cyfleoedd i ymarferwyr rannu a datblygu'r arferion da y gwyddom eu bod yn bodoli ledled y wlad. Bydd yn fodd hefyd i greu cyfleoedd i sefydlu partneriaethau mwy eang.   Rydym yn awyddus hefyd i gefnogi ymarferwyr i ymchwilio i ddatblygiadau proffesiynol perthnasol.

## Pam rydych chi wedi datblygu model ar gyfer addysgeg?


Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

Mawrth 2009

Dogfen Wybodaeth Rhif:074/2009

Mae'r model ar gyfer addysgeg yn dangos elfennau allweddol addysgeg effeithiol a'r amodau allweddol y mae eu hangen er mwyn i addysgeg effeithiol ffynnu. Yn ein cred ni, yn y man lle mae'r elfennau hyn yn cydblethu yr ydym yn sicrhau'r arferion proffesiynol mwyaf effeithiol ac felly'n sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr, a'u lles. Rydym am i ymarferwyr berchenogi'r model hwn.

## Y Model Addysgeg




## Y Model

Diben y model hwn yw dangos pa mor bwysig yw hi i gydblethu'r holl elfennau y mae eu hangen, yn ein cred ni, er mwyn gwella deilliannau a lles y dysgwr.


Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

Mawrth 2009

Dogfen Wybodaeth Rhif: 074/2009

## Y Broses Ddysgu

Mae ymchwil i'r modd y mae'r ymennydd yn datblygu ac yn gweithio yn dangos bod ystyried y gwahanol ddulliau y bydd dysgwyr yn eu defnyddio wrth ddysgu yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r broses.

Rydym am i ymarferwyr ddatblygu'r wybodaeth sydd ganddynt am y materion a ganlyn:

- y broses ddysgu ei hun;
- y broses ddysgu ar gyfer dysgwyr dwyieithog;
- datblygiad gwybyddol;
- sut mae'r ymennydd yn datblygu;
- prosesau meddwl.

Mae angen i ymarferwyr wybod am ddatblygiadau newydd ym maes addysgeg a chael cyfleoedd drwy gydol eu gyrfa i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ganddynt.

## Strategaethau Addysgu

Er mwyn diwallu anghenion y dysgwr, dylai pob ymarferydd feddu ar ddealltwriaeth o amryfal ddamcaniaethau a modelau addysgu ac ar ystod o sgiliau.

Rydym am i ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth broffesiynol hon er mwyn:

- creu cyfleoedd dysgu sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac yn ei herio er mwyn sicrhau ei fod yn dysgu cymaint ag y bo modd;
- cyfrannu at ddiwylliant o fyfyrio ynghylch addysgeg.

Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

Mawrth 2009

Dogfen Wybodaeth Rhif: 074/2009

## Yr Amgylchedd Dysgu a Pherthynas ag Eraill

Mae sicrhau lles emosiynol a chorfforol y dysgwr yn allweddol ar gyfer dysgu effeithiol. Mae angen i ddysgu ddigwydd mewn cyd-destun sy'n cydnabod ac yn datblygu lles y dysgwr.

Rydym am i ymarferwyr:

- bersonoli'r dysgu;
- gwrando ar lais y dysgwr;
- creu cyfleoedd i'r dysgwr gael rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno;
- cynnwys rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach yn y broses ddysgu;
- creu amgylchedd sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli'r awydd i ddysgu.

## Myfyrio Ynghylch Addysgeg

Y sail i holl elfennau'r fframwaith yw'r broses barhaus o fyfyrio ynghylch addysgeg er mwyn gwella deilliannau a lles yr unigolyn.

Rydym am i ymarferwyr:

- ddeall eu cyfrifoldeb dros eu datblygiad eu hunain;
- cyfrannu at ddatblygiad eraill drwy annog a symbylu trafodaeth am addysgeg;
- meithrin a datblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn ymchwilio;
- bod yn barod i herio hen arferion ac i fentro ac arloesi.

Arferion Effeithiol wrth
Ddysgu ac Addysgu –
Ffocws ar Addysgeg

Mawrth 2009

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 074/2009